



2019/20

***Adroddiad
Blynyddol***

Cynnwys

Ein Gwaith

Datganiad yr Ymddiriedolwyr

Ein Llwyddiannau

Gwirfoddolwyr

Effaith a Gwerth

Adolygiad Ariannol

Dogfen Llywodraethu a Chyfansoddiad

Cynlluniau'r Dyfodol



Ein Gwaith

Mae'n gred gan FareShare Cymru na ddylai unrhyw fwyd da fynd i wastraff.

Rydym yn ail-ddosbarthu bwyd dros ben da i elusennau sy'n mynd ati i baratoi prydau gyda'r bwyd.

Ein nod ydy cefnogi'r mudiadau lleol hynny sy'n bwydo'r rheiny mewn angen, drwy gynnig ateb moesol ac sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac economi i'r diwydiant bwyd.

Ein hamcanion gweithredol ar gyfer 2019/20 oedd y canlynol:

- Ailgyfeirio 600 tunnell o fwyd fuasai fel arall yn mynd i wastraff
- Cynnig bwyd i 80-100 o aelodau bwyd cymunedol yn ystod y flwyddyn
- Cynnig gwerth £1.5 miliwn o fwyd i'r trydydd sector yn Ne Cymru
- Cyfrannu tuag at 1.4 miliwn o brydau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Rydym yn nyled Llywodraeth Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac Asda am eu cefnogaeth ariannol ynghyd ag Olympus Surgical, Admiral, HSBC a llawer iawn o unigolion am eu cyfraniadau. Heb eu cefnogaeth nhw, buasai hyn i gyd wedi bod yn amhosib.

Swyddfa Gofrestredig a Chyfeiriad Gweithredu

Uned S5, Parc Busnes Capital
Caerdydd, CF3 2PU

Rhif Ffôn: 02920362111

E-bost: info@fareshare.cymru

Gwefan: www.fareshare.cymru

Cyfryngau Cymdeithasol

@FareShareCymru ar Twitter ac Instagram

[Facebook.com/FareShareCymru](https://www.facebook.com/FareShareCymru)

[linkedin.com/company/FareShareCymru](https://www.linkedin.com/company/FareShareCymru)

Datganiad yr Ymddiriedolwyr

Mae hi'n 10 mlynedd bellach ers inni sefydlu FareShare Cymru, ac rydym yn parhau i greu effaith sylweddol yn ailgyfeirio bwyd dros ben, sydd yn dal yn ddigon da i'w fwyta, rhag ei wastraffu gan gefnogi pobl ddifreintiedig ledled De Cymru.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i'n harianwyr (Llywodraeth Cymru, ASDA a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) ac ein cefnogwyr sydd wedi cyfrannu'n hael. Gyda'r cyfraniadau hanfodol hyn bu modd inni fynd ati i wneud gwelliannau i'n cyfleusterau a chefnogi ein gallu i ymestyn ein horiau agor a chludo bwyd i fannau tu hwnt i'r mannau arferol yn Ne Cymru.

Bu inni ragori ar ein targed o ailgyfeirio 600 tonnell o fwyd rhag ei wastraffu gan fynd ati i achub 646 tonnell o fwyd a diod. Bu inni lwyddo i gyfrannu tuag at dros 1.3 miliwn o brydau i nifer sylweddol o fudiadau yn ein cymunedau. Mae'r prydau hyn yn fodd o gynnig maeth i'r bobl fregus yn ein cymunedau ond at hyn mae'r prydau hefyd yn llesol i'r amgylchedd. Yng nghanol Argyfwng ar yr Hinsawdd, bu inni atal dros 2000 tonnell o darthiadau deuocsid carbon.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod cyfraniad allweddol ein gwirfoddolwyr tuag at FareShare Cymru yn gyfan gwbl a hoffem estyn diolch iddyn nhw am eu hymdrechion sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein gwirfoddolwyr yn ennill profiad gwerthfawr gall arwain at ddod o hyd i waith gyda thâl ynghyd â gwneud ffrindiau a dysgu sgiliau newydd. Rydym bob amser yn edrych ymlaen at groesawu gwirfoddolwyr newydd.

Hoffem hefyd estyn diolch i'n mudiadau Aelodau Bwyd Cymunedol sy'n ganolog i ddod â'u cymunedau ynghyd a mynd ati i drechu unigrwydd.

Eleni, hoffem ddiolch o galon i'n Cadeirydd, John Antoniazzi wrth inni ffarwelio ag o. Bu i FareShare Cymru elwa'n sylweddol o'i waith a chefnogaeth dros y blynyddoedd. Hoffem hefyd estyn croeso cynnes i'n haelodau bwrdd newydd, Chris Bray ac Emma Waldron wnaeth ymuno gyda ni eleni. Rydym yn bwriadu recriwtio mwy o ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn cryfhau ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ymhellach.

Yn olaf, hoffem ddiolch o waelod ein calon i'r staff am bopeth maen nhw wedi'i gyflawni ac am eu hymroddiad parhaus.

Wrth i'r flwyddyn yma ddirwyn i ben, daeth dyfodiad y Pandemig Coronavirus a doedd dim syniad o gwbl gennym ni am effaith hyn ar ein teuluoedd ni a gweddill y byd. Bu i fudiadau ailddosbarthu bwyd fel ein un ni chwarae rhan allweddol yn cefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. Hoffem hefyd ddiolch i FareShare UK, yr archfarchnadoedd a gwneuthurwyr bwyd sydd wedi mynd tu hwnt i'r galw yn ystod yr argyfwng hwn ac wrth edrych tua'r dyfodol.

Ymddiriedolwyr FareShare Cymru



Ein Llwyddiannau

Bu 2019/20 yn flwyddyn llawn newid, datblygu a pharatoi. Mae gennym ni gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf a diolch i'n harianwyr bu modd inni roi gweithrediadau ar waith i'n helpu gyda'r gwaith paratoi.

Bu inni recriwtio myfyriwr ar leoliad gwaith yn llawn amser yn Hydref 2019 a phenodi aelod newydd o staff yn Rhagfyr 2019. Yn ogystal bu inni wneud gwelliannau i'r storfa.

Fel rhan o'r gwelliannau hyn, bu inni ymestyn ein man oeri er mwyn inni fedru ailddosbarthu mwy fyth o fwyd oer (gyda chyllid gan gronfa trawsnewid UE Llywodraeth Cymru), ychwanegu modur at y drws rholer (ASDA) a phrynu faniau ychwanegol (ASDA / Cronfa Trawsnewid UE Llywodraeth Cymru). At hyn, bu inni gydweithio gydag ymgynghorwyr i fwrw golwg ar sut fuasai modd / a fuasai modd ymestyn Fareshare i ardaloedd eraill yng Nghymru a sut buasen ni'n medru manteisio ar fwyd i gyflawni hyn.

Bu inni hefyd fynd ati i agor ar ddydd Sadwrn a Gwyliau'r Banc er mwyn inni fedru ailddosbarthu mwy o fwyd i fwy o fudiadau.

Bwyd wedi'i Ailddosbarthu

Yn ystod 2019-20 bu i FareShare Cymru arbed 646 tunnell o fwyd rhag mynd i wastraff. Cafodd 566 tunnell o fwyd a diod eu hailddosbarthu. Fel arall buasai'r bwyd a diod hynny wedi mynd i wastraff yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Bu'r cyfanswm bwyd gafodd ei gludo i'n helusen ac aelodau grŵp cymunedol yn hafal i 1.349 miliwn o brydau ar gyfer pobl fregus yn Ne Cymru.

Mudiadau Rydym Ni'n eu Cefnogi

Yn ystod 2019/20, bu inni gefnogi 124 o fudiadau gyda bwyd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Eleni hefyd bu inni fynd ati i ymestyn ein gwasanaeth yn sylweddol gan gludo i ardaloedd newydd a ffurfio cysylltiadau gyda mudiadau yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Llanelli.

Rydym yn cydweithio gydag amrywiaeth o fudiadau, fel hosteli i bobl ddigartref, canolfannau i ffoaduriaid, tŷ noddfa i ferched, cymdeithasau tai, pantriâu cymunedol, cydweithfeydd bwyd, grwpiau eglwys, caffis cymunedol, clybiau cinio, a mwy.

Dyma'r Aelodau Bwyd Cymunedol bu inni eu cefnogi:

Action in Caerau and Ely (ACE), AWJCG, Ysgolion ACT, Canolfan Ddydd Waunadda, Barn Owls, Ymddiriedolaeth yr Oleufan, Grŵp Cefnogi Cymunedol Bedlinog a Threlewis, Ymddiriedolaeth Bethel Port Talbot, Banc Bwyd y Gellifedw, Capel y Bedyddwyr Blaenycwm, Eglwys Blwyf BMMR, Tŷ Brynawel, Strategaeth Adfywio Cymunedol Bryncynon, Grŵp Datblygu Cornel Cadog, Cymdeithas Tai Cadwyn, Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau, Banc Bwyd Caerffili, Pobl yn Gyntaf Caerffili, Canolfan Maerdy, Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd, Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd, Cymdeithas Gymunedol Castleland, Cefn Golau Gyda'i Gilydd, Ymddiriedolaeth Datblygu Corneli a'r Fro, Clwb Cinio Corneli a'r Fro, Partneriaeth CoStar, Canolfan Cwmbrân ar gyfer Pobl Ifanc, Neuadd Llesiant Cwmllynfell, Canolfan Gymunedol Cwmparc, Canolfan Gymunedol Dowlais, Banc Bwyd y Cymoedd Dwyreiniol, Banc Bwyd Ochr y Dwyrain, Eden Gate, Rhaglen Gwyliau Trelái a Caerau, Emmaus Nant Lais, Fabric Cymru, Canolfan Gymunedol FAN, Cymdeithas Rhieni a Phlant Bach Footprints, Canolfan y Goedwig i Blant, Rhwydwaith Cymunedol Gaer, Banc Bwyd GCG, Grŵp Foundation Gellideg, Sipsiwn a Theithwyr Cymru, Huggard, Hwb Include, Ymddiriedolaeth Innovate, Jesus Cares, Ieuenctid a Chymuned KPC, Llamau, Canolfan gymunedol Markham, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful, Byddin yr Iachawdwriaeth Treforys, Canolfan Gymunedol Ffordd Ffordd Moorland, Cwmni Buddiant Cymunedol Cymuned Mulligan, Prosiect Cymunedol Noddfa, Grŵp Cymunedol Northville, Oasis Caerdydd, Plwyf Treharris, Trelewis , Bedlinog a Llanfabon, Parth Pentrebane, Banc Bwyd Pontypridd, Resolven Building Blocks, Fforwm Rhymni, Cymru Saffach, Byddin yr Iachawdwriaeth (Dwyrain Caerdydd), Byddin yr Iachawdwriaeth (Tŷ Gobaith), Seren yn y Gymuned, Gwirfoddolwyr Cymunedol Sblot, Caffi Cyswllt Eglwys y Santes Catrin, Ysgol Gynradd Sant Iago Splott, Canolfan gymunedol Stow Park, Cymuned Summerhill, Cymdeithas Tai Tâf, Cynllun Mentora Plws Pen-y-bont, The Court House, Canolfan Ddydd the Olive Branch, Yr Iard Chwarae - Plant y Cymoedd, The Shared Plate , The Wallich, Y Ganolfan Ieuenctid Cefn Hengoed, TRAC2, Tasglu Cymunedol Tredegar, Ysgol Gynradd Trinant, Trivallis, Hwb Cymunedol Twynrodyn, Banc Bwyd y Fro, Vision 21, Canolfan y Mileniwm Cymru, Merched Mewn Angen a Theuluoedd, Womens Strike Assembly Cymru, WSSAG, Pantri Stryd Wyndham, Canolfan Weithgareddau Ynys Hywel, Canolfan Gymunedol Ynysybwl

“Mae yna bob amser gyflenwad o fwyd, ac am bris rhesymol!
Mae’n syniad gwych i elusennau gydweithio gyda FareShare
Cymru.”

Vision Twenty One

**Tai â Chefnogaeth
Litchfield Court**

“Gan nad oes modd rhagdybio pa fwyd fyddwn ni’n ei dderbyn gan ei fod yn fwyd dros ben, mae’n fodd inni fod yn hyblyg gyda’r prydau gallwn eu paratoi”

““Mae defnyddio bwyd dros ben i greu pecynnau bwyd wedi ein galluogi i gysylltu a chydweithio gydag aelodau ein cymunedau mae’n bosib na fyddwn ni wedi gallu cydweithio gyda nhw fel arall”

The Play Yard



Partneriaethau a Digwyddiadau:

Mae partneriaethau yn help inni greu effaith mwy sylweddol fyth: bu inni gydweithio gyda Bwyd Caerdydd a Phantri ACE sydd erbyn hyn wedi llwyddo i lansio'r Pantri cyntaf yng Nghaerdydd. Yn ystod gwyliau'r haf bu inni gyflenwi cynllun Ffynnu CCHA gyda bwyd ar gyfer eu prosiect gwyliau'r haf 'Haf o Bicnics' (yn cydweithio gyda dros 500 o blant). Hefyd bu inni gydweithio gyda Hwb Trelái a Chaerau ar brosiect gwyliau prawf yn ystod hanner tymor Chwefror ac rydym yn aelodau gweithredol o grwpiau megis Cynghrair Trechu Tlodi Bwyd De Cymru, Bwyd Caerdydd, Bwyd Merthyr a Bwyd Bro Morgannwg.

Eleni bu inni gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd yn hyrwyddo ein gwaith yma yn Fareshare Cymru a cheisio dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael gyda thlodi bwyd a gwastraff bwyd. Bu inni fynychu digwyddiad Sefydliad Bevan ynghylch datrysiadau i Lwgu yn ystod y Gwyliau, digwyddiad Bwydlen dros Newid Blaenau Gwent, Cyfarfodydd Cynghrair Mynd i'r afael â Thlodi a chyfarfod Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi. At hyn bu inni drefnu digwyddiad cwrdd a chyfarch yn Abertawe, cyflwyno yng nghlwb swper cyntaf Cwmni Buddiant Cymunedol Wild Thing yng Nghaerdydd ynghyd â chyfarfod Grŵp Cefnogaeth Strategol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent.

Cronfa FareShare Cymru

Fel rhan o'r cyllid bu inni ei dderbyn drwy Gronfa Trawsnewid yr UE gan Lywodraeth Cymru, bu inni gydweithio gyda Sefydliad Cymunedol Cymru i ddatblygu cynllun grant cyfalaf. Diben y cynllun grant oedd gwella cydnerthedd a chymhwysedd yn sgil Brexit. Nod y grant oedd cefnogi mudiadau sy'n defnyddio bwyd fel galluogwr a chynnig gwasanaethau ychwanegol sy'n cefnogi a mynd i'r afael â'r achosion o dan yr wyneb ac nid symptomau tloidi bwyd yn unig. Ym mis Ionawr, bu i'r panel grantiau gyflwyno 20 o grantiau, gwerth cyfanswm o £75,000. Ers hynny, bu i sawl mudiad gysylltu gyda rheolwyr y grant i ddweud bod y mannau storio ychwanegol, wnaethon nhw lwyddo i'w prynu gyda'r grantiau, yn gymorth aruthrol pan oedd angen iddyn nhw fodloni'r galw oedd hyd yn oed yn uwch yn ystod Cloi mawr y Coronafeirws.

FareShare Go

Mae'r cynllun FareShare Go yn chwaer-brosiect i Fareshare ac yn ymwneud â bwyd dros ben ar ddiwedd y dydd mewn archfarchnadoedd. Mae'r cynllun yn fodd i grwpiau cymunedol gasglu bwyd am ddim er mwyn bwydo'r rheiny sy'n manteisio ar eu gwasanaeth. Erbyn hyn mae'r prosiect yn elwa o 70 aelod ychwanegol sydd wedi llwyddo i gynnig dros 931 mil o brydau i bobl fregus yn Ne Cymru.



Gwirfoddolwyr

Y llynedd, bu i 170 o bobl wirfoddoli gyda ni, gan roi 11 mil awr o'u hamser. Bu rhai o'r gwirfoddolwyr hyn yn gweithio'n rheolaidd yn ein storfa ymysg gyrwyr danfon, cynorthwyr yn y warws, gweinyddwyr, ac ein myfyriwr marchnata a chyfathrebu ar leoliad gwaith.

Mae'r nifer o wirfoddolwyr yn cynnwys y cynnydd o wirfoddolwyr yn ystod y Casgliad Bwyd y Fro ym mis Tachwedd ac yn ystod cyfnod y Nadolig. Bu'r gwirfoddolwyr yn annog siopwyr i gyfrannu bwyd mewn tuniau neu jariau a bu diwrnodau tîm i'r gwirfoddolwyr gyda staff o HSBC, Good Gym Cardiff, Olympus, a thîm Ystadegau Llywodraeth Cymru yn helpu trefnu a dosbarthu'r cyfraniadau bwyd. Yn ogystal, bu inni gynnal diwrnodau tîm eraill ar wahân i wirfoddolwyr ar gyfer HSBC, Bwydydd Billington ac Awdurdod Cyllid Llywodraeth Cymru.




Mae ein gwirfoddolwyr yn aelodau hynod werthfawr o'n tîm - buasai'n amhosib inni gyflawni'n gwaith heb ein gwirfoddolwyr.

Effaith a Gwerth:

Yn 2019/20, fe lwyddodd FareShare Cymru i wneud y canlynol:

Cyfrannu tuag at drechu tlodi, datblygu addysg gyhoeddus a gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd materol a naturiol drwy wneud y canlynol...



ailgyfeirio **566**
tunnell o fwyd dros ben
i elusennau a grwpiau
cymunedol yn Ne Cymru



paratoi **1.348**
MILIWN o brydau i
bobl fregus yn ystod
cyfnod
heriol



cefnogi **124** o
elusennau a mudiadau
cymunedol



arbed **1996** tonnall
o darthiadau CO2 yn
sgil lleihad o 646
tonnell o
wastraff bwyd



bu i **170** o
wirfoddolwyr roi dros
11,991 awr o'u
hamser. Bu i 7 o'n
gwirfoddolwyr
rheolaidd ddod o hyd i
waith gyda thâl.



fe lwyddodd ein
gwirfoddolwyr i gyflawni
ac ennill **8** cwrs a
chymhwyster hyfforddi,
fel Diogelwch Bwyd Lefel
2 a gyrru wagen fforch
godi.

Adolygiad Ariannol:

Bu i'r incwm yn ystod 2019-20 gynyddu dros 200% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd hyn yn bennaf oherwydd llwyddodd FareShare Cymru i ennill £710,000 o gyllid ychwanegol drwy Gronfa Trawsnewid yr UE gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cyllid ychwanegol yn ein cynorthwyo i baratoi tuag at Brexit a threchu tlodi bwyd, cefnogi mudiadau bwyd cymunedol yng Nghymru a gofalu bod y rheiny sydd mewn angen yn derbyn bwyd a nwyddau hanfodol. Bydd y cyllid hefyd yn fodd inni fwrw golwg ar ymestyn ein hardal gwasanaeth a hybu ein gwasanaeth cyfredol mewn ardaloedd poblog rydym eisoes yn gweithredu ynddyn nhw. Nod arall y gronfa ydy galluogi mudiadau i gynyddu eu cyflenwadau bwyd i'w ddosbarthu i'r rheiny mewn angen. Bu inni wario rhan o'r cyllid ar fwy o gyfleusterau i storio ein bwyd oer a bu inni wario £82,500 pellach ar gynllun grant wedi'i weinyddu gan Sefydliad Cymunedol Cymru (gwelwch Cronfa Fareshare Cymru i wybod mwy).

At hyn, bu cynnydd o 49% mewn ffioedd aelodaeth o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae hyn yn sgil cynnydd yn ein nifer o aelodau bwyd cymunedol. Mae hyn gyda diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ariannu swyddi ychwanegol.

Ymysg ein ffynonellau incwm sylweddol eraill yn 2019-20 oedd grantiau gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac ASDA. Hon oedd yr ail flwyddyn inni dderbyn y grantiau hyn felly byddwn yn eu derbyn y flwyddyn nesaf hefyd gan eu bod yn grantiau am gyfnod o dair blynedd.

Bu i ein gwariant gynyddu 164% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gwariant cyfalaf yn gysylltiedig gyda grant Cronfa Trawsnewid yr UE gan Lywodraeth Cymru.




Yn sgil dyfodiad y pandemig COVID-19, rhaid oedd gohirio nifer o weithgareddau ynghlwm â Chronfa Trawsnewid yr UE gan Lywodraeth Cymru i'w cynnal yn ystod 2020-21. Mae hyn yn golygu caiff cyfran o'r cyllid hwnnw ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

At hyn, mae'n debyg y bydd COVID-19 yn effeithio ar ein gweithrediadau a chyllid wrth edrych tua'r dyfodol. Bu inni gynnal asesiad risg ar hyn yn benodol. Mae'n debyg y bydd COVID-19 yn effeithio ar y ffioedd aelodaeth - yn anffodus bu'n rhaid i rai aelodau bwyd cymunedol gau, mae eraill wedi gorfod addasu eu gwasanaeth ac mae cwmnïau newydd wedi'u sefydlu. Hefyd mae'n bosib y bydd aelodau bwyd cymunedol yn ei chael hi'n anodd talu'r ffi aelodaeth. Cafodd hyn ei liniaru'n rhannol yn sgil FareShare UK yn ennill cyllid i gynorthwyo gyda thrafferthion o'r fath. Rydym yn cydweithio'n agos gydag ein holl aelodau i'w cefnogi yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae'n debyg y bydd goblygiadau ariannol COVID-19 hefyd yn effeithio ar y diwydiant bwyd ac bydd yn anodd inni ragweld yr union effaith am beth amser. Mae FareShare UK wedi llwyddo i fynd i'r afael â hyn yn rhannol drwy dderbyn cyfraniadau bwyd gan y diwydiant bwyd. At hyn bu inni ennill cyllid i recriwtio gweithiwr ychwanegol fydd yn canolbwyntio ar ddod o hyd i gyfraniadau bwyd yng Nghymru dros gyfnod o ddeuddeg mis.

Ein Cyllid:

Mae'r lluniau hyn yn cynnig trosolwg cryno o'n sefyllfa ariannol ar gyfer 2019-20.

Roedd y Cyfanswm incwm am y flwyddyn yn £1,135,989, a'r cyfanswm gwariant yn £538,578.



Mae ein cyfrifon cyflawn ac adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon hynny ar wefan y comisiwn elusennau.

Dogfen Llywodraethu a Chyfansoddiad

FareShare Cymru ydy'r enw masnachu dros Food Distribution Wales Ltd. Mae'n gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant (rhif 07198367), ac mae wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau fel elusen yn Lloegr a Chymru (rhif.1141781). Cafodd FareShare Cymru ei ymgorffori yn 2010 a chaiff ei lywodraethu gan ei Femorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu gafodd ei fabwysiadu ar Fawrth yr 22ain 2010. Bu inni gychwyn gweithredu ym mis Gorffennaf 2011.

Strwythur, rheolaeth a llywodraeth

Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr

John Antoniazzi (Cadeirydd hyd at Ragfyr 2019)
Keith Manson
Simon Harris

Nadia De Longhi
Chris Bray ((ers Ionawr 2020)
Emma Waldron (ers Ionawr 2020)

Tîm Staff

Rheolwr - Sarah Germain
Rheolwr Gweithrediadau - Gerry Molan
Rheolwr Prosiect Cynorthwyol - Katie Padfield
Swyddog Gwirfoddoli - Phil Pinder

Rheolwyr
Gweithrediadau Cynorthwyol -
Emma Roberts, Molly Jones, Matt Lee (ers Rhagfyr 2019)

Swyddfa Gofrestredig

Uned S5, Parc Busnes Capital, Caerdydd, CF3 2PU

Bancwyr

Banc y Co-operative - P.O. Box 250, Delf House, Southway, Skelmersdale, WN8 6WT

Triodos - Deanery Road, Bristol, BS1 5AS

Y Banc Elusennol Cyfyngedig - Fosse House, 182 High Street, Tonbridge, TN9 1BE

Archwilwyr

Baldwins - Waters Lane Chambers, 1-3 Waters Lane, Casnewydd, NP20 1LA

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 07198367

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1141781

Amcanion:

Mae amcanion (“Amcanion”) elusen FareShare wedi’u cyfyngu’n benodol i’r canlynol:

a) trechu tlodi a diogelu a hybu maethiad da, iechyd da a gwelliant cymdeithasol ymysg pobl sy’n dioddef o galedi cymdeithasol, economaidd neu emosiynol mewn ffyrdd y mae’n bosib y bydd y Cyfarwyddwyr yn ei farnu’n ddoeth ond yn enwedig trwy’r canlynol:

- (i) casglu ac ailgyfeirio bwyd dros ben; ac
- (ii) annog aelodau’r cyhoedd i ymgymryd â gwaith gwirfoddol;
- (b) datblygu addysg gyhoeddus yn benodol, ond nid yn unig, drwy gynnig hyfforddiant yn y sector gwirfoddol; a
- (c) diogelu, gwarchod a gwella’r amgylchedd materol a naturiol, er budd y cyhoedd, drwy leihau gwastraff (gwastraff bwyd yn enwedig) a’i effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.

Budd i’r Cyhoedd

Mae’r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cyfeirio at gyngor y Comisiwn Elusennau ynghylch y budd i’r cyhoedd wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen a chynllunio gweithgareddau’r dyfodol. Mae diben FareShare o ganolbwyntio ar drechu tlodi bwyd a chydweithio gydag elusennau lleol a mudiadau cymunedol yn golygu bod budd uniongyrchol a chadarnhaol i nifer o’r bobl fwyaf ymylol yng Nghymru (unigolion sy’n ddigartref, yn ddi-waith, yn dlawd neu’n unig). Mae’r elusen yn cynnig cyfle i unigolion gydweithio gyda nhw fel gwirfoddolwyr ac mae croeso i unrhyw un o’r gymuned fanteisio ar y cyfle, gan gynnwys pobl ymylol. Mae hyn hefyd yn gyfle i wirfoddolwyr ac eraill ennill cydnabyddiaeth ac achredïadau am y sgiliau maen nhw wedi’u datblygu wrth weithio gyda FareShare Cymru. Yn ogystal, drwy ddefnyddio bwyd dros ben, rydym yn llwyddo i leihau gwastraff a lleihau tarthïadau carbon.

Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr

Mae rhestr o’r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ac aelodau’r cwmni elusennol, ar y dudalen flaenorol. Pob blwyddyn, bydd un traean o’r ymddiriedolwyr yn ymddiswyddo ond mae hawl ganddyn nhw ymgynnig eu hunain i’w hail-ethol yn y Cyfarfod Blyneddol nesaf yn unol â’r gweithdrefnau yn y Memorandwm a’r Erthyglau Cymdeithasu.

Caiff Ymddiriedolwyr eu recriwtio ar sail ystod o sgiliau a phrofiadau priodol er mwyn gofalu llywodraethu cadarn a chynnydd sylweddol tuag at gyflawni cenhadaeth a nodau'r elusen. Cyn mynd rhagddi gyda'u gwaith, bydd ymddiriedolwyr newydd yn mynychu cyflwyniad lle byddan nhw'n dysgu am eu cyfrifoldebau cyfreithiol ynghyd â pholisïau, prosesau gwneud penderfyniadau, cynllun strategol a sefyllfa ariannol mwyaf diweddar FareShare Cymru.

Mae'r holl ymddiriedolwyr yn rhoi o'u hamser o'u gwirfodd eu hun ac nid ydyn nhw'n derbyn unrhyw fudd-daliadau gan yr elusen. Mae'r holl gostau gaiff eu hadennill gan yr elusen wedi'u cofnodi yng nghofnod 10 y cyfrifon.

Trefniant

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ffurfio'r Bwrdd, sef corff llywodraethu FareShare Cymru. Bu iddyn nhw gyfarfod pum gwaith yn ystod 2019/20. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol dros gymeradwyo'r cynllun strategol a chyllidebau blynyddol yr elusen ynghyd ag arolygu polisïau. At hyn, mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn arolygu materion yn ymwneud â chyllid ac archwilio, risg a chynladwyedd hirdymor.

Mae'r tîm staff, o dan arweiniad y Rheolwr, yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth ac am fynd rhagddi i gyflawni'r prif nodau ac amcanion.

Polisi Tâl Staff

Mae ein gweithdrefn ynghylch tâl staff yn gofalu ein bod yn medru recriwtio a chadw gweithwyr o safon uchel i gynrychioli nodau'r elusen. Rydym hefyd yn angerddol dros wobrwyo ein staff yn deg am eu gwaith a meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol. Rydym yn credu bod ein cyflogau ac ein hamodau a thelerau yn adlewyrchu hyn.

Caiff gweithwyr FareShare Cymru eu cyflogi ar sail sgiliau penodol maen nhw'n meddu arnyn nhw ar gyfer eu swydd neilltuol. Er mwyn sicrhau bod FareShare Cymru'n llwyddiannus, mae angen ystod o sgiliau a disgyblaethau ac mae angen inni sicrhau ein bod yn talu'r staff yn ddigonol er mwyn inni allu recriwtio pobl sy'n meddu ar y sgiliau priodol.

Mae hefyd angen inni allu cadw'r gweithwyr a hynny mewn marchnad gystadleuol lle mae eu sgiliau yn addas ar gyfer mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol a sectorau eraill. Mae FareShare Cymru yn credu'n gryf y dylid ceisio cadw staff yn yr hirdymor, eu datblygu ac yna elwa o'u gwybodaeth gynyddol.

Rydym yn gofalu fod y gyfradd tâl isaf un yn cyfateb i'r cyflog byw wedi'i bennu gan y Sefydliad Cyflog Byw. Rydym fel arfer yn cyflwyno cynnydd blynyddol ym mis Hydref pob blwyddyn gan ddwyn i ystyriaeth y gyfradd chwyddiant a faint gallwn ei fforddio. Mae cynnydd blynyddol mewn cyflogau yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Rheoli Risg

Mae FareShare yn meddu ar strategaeth rheoli risg sy'n canolbwyntio ar gynnal cofrestr risgiau. Y Rheolwr a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn am adnabod ac asesu risgiau'n gyntaf oll. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risgiau'n rheolaidd: maen nhw'n ystyried sut mae'r risgiau'n cydymweithio a lle mae angen blaenoriaethu gweithrediadau lliniaru.

Caiff y prif gategoriâu risg eu rhannu i'r prif feysydd canlynol:

Diogelwch bwyd - Mae ailgyfeirio bwyd wrthwraidd ein gwaith. Mae diogelwch bwyd, o le ddaw ein bwyd a thrin y bwyd ar y cyfan yn ganolog i'n cenhadaeth ac ein henw da. Cam lliniaru : Mae ein polisiau a gweithdrefnau yn fodd inni gynnal y safonau uchaf posib gan y byddai unrhyw esgeulustra'n peryglu ein swydd o ymddiriedaeth ac awdurdod arbenigol gyda'r diwydiant bwyd.

Colli staff allweddol - Mae gan FareShare Cymru dîm staff bach a byddai colli unrhyw unigolyn allweddol yn amharu'n sylweddol arnom ni. Rydym yn sicrhau bod modd i'n staff gyflawni amrywiaeth o dasgau. Llunio cynllun olyniaeth.

Manteisio ar fwyd dros ben - Rydym yn dibynnu'n bennaf ar FareShare Uk ar gyfer ein cyflenwad bwyd. Mae'n bosib y bydd gan y cyflenwadau bwyd hynny gystadleuaeth gan gwmnïau masnachol ynghyd â defnyddiau amgen fel treulio anaerobig a bwyd i anifeiliaid. Cam lliniaru: Rydym wedi ennill cyllid i gyflogi Cydlynnydd Canfod Bwyd am gyfnod cychwynnol o 12 mis. At hyn, bu i FareShare UK sefydlu cronfa er mwyn lleihau'r rhwystrau yn ymwneud ag elusennau'n ailgyfeirio bwyd.

Cynhyrchu Incwm - Daw cyfran sylweddol o'n hincwm drwy grantiau ac mae'r rhan fwyaf o'r rheiny'n rai tymor byr. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd er mwyn gofalu bod modd inni addasu ein gwariant i ymdopi gyda newidiadau yn ein cyllid amcanol. Cam lliniaru: Rydym yn bwriadu cynyddu ein cyfran o incwm gwaith dros amser fel y gwelir gyda chynnydd yn ffioedd ymaelodi. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn hefyd drwy ein polisi targed arian wrth gefn i geisio talu am chwech i ddeuddeg mis o wariant arferol parhaus.

Gweithrediadau - Mae Rhwydwaith FareShare Cymru yn cynnal warws prysur gyda chyfarpar gall fod yn beryglus fel wagenni fforch godi ac oergelloedd a rhewgelloedd gallwch gerdded mewn iddyn nhw. Mae gennym ni weithwyr sy'n gweithio yn y swyddfa yn ogystal â gwirfoddolwyr allanol sy'n dod i weithio ar ein safleoedd. Cam lliniaru: Cynnal a chadw llawlyfr iechyd a diogelwch diweddar a gofalu caiff ei gyflwyno'n gyson drwy gyrsiau hyfforddi ac anwytho.

FareShare UK

Mae FareShare Cymru yn rhan o rwydwaith FareShare Uk. Mae hyn yn golygu ein bod ni wedi mabwysiadu llawlyfr diogelwch bwyd FareShare Uk a'i bolisiâu a gweithdrefnau HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol). Rydym yn defnyddio System Rheoli Ar-lein Gladys FareShare UK i gofnodi bwyd rydym yn ei dderbyn a'i rannu ynghyd â'u system ar-lein ar gyfer Rheoli Gwirfoddolwyr. At hyn rydym yn cytuno i gydymffurfio gyda'u canllawiau brandio.

Gweithdrefn Codi Arian

Eleni, ein ffynonellau incwm oedd drwy ffioedd aelodaeth, y llywodraeth, partneriaid corfforedig ac unigolion. Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un o'n cefnogwyr ac am bob rhodd rydym yn ei dderbyn. Ein staff a gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am reoli ein holl waith codi arian. Dim ond ychydig iawn iawn o arian rydym yn llwyddo i'w dderbyn gan unigolion (llai na 1%). Rydym yn rhannu gwybodaeth am gyfrannu gydag unigolion sy'n cymryd rhan mewn Diwrnodau Gwirfoddoli fel Tîm ac mae botwm Cyfrannu ar ein gwefan. Ar ddiwedd 2019-20 bu inni gynnal ymgyrch ar-lein er mwyn codi arian i'n cynorthwyo gyda chostau ychwanegol yn sgil y pandemig COVID-19. Nid ydym yn cyflogi unrhyw fudiadau codi arian proffesiynol ac ni fu inni dderbyn unrhyw gwynion am ein hymarferion neu weithgareddau codi arian yn ystod 2019-20.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol – y Flwyddyn Nesaf

Ein nod y flwyddyn nesaf ydy parhau i gefnogi mudiadau lleol sy'n bwydo'r rheiny sydd mewn angen, gan gynnig ateb moesol ac sy'n ystyriol o'r amgylchedd a'r economi i'r diwydiant bwyd.

Dyma ein hamcanion gweithredol ar gyfer 2020/21:

- Ailgyfeirio 750 tunnell o fwyd rhag ei wastraffu
- Cynnig bwyd i 100-130 o aelodau bwyd cymunedol yn ystod y flwyddyn
- Cynnig gwerth £1.8 miliwn o fwyd i'r trydydd sector yn Ne Cymru
- Cyfrannu tuag at 1.7 miliwn o brydau

COVID-19

Rydym yn rhagweld y bydd COVID-19 yn effeithio ar ein gwaith a chyllid yn ystod 2020-21. Bu inni ddirwyn i ben ar gyfer 2019-20 unwaith y cafodd y cloi mawr ei gyhoeddi ym Mhrydain.

Roedd yn rhaid i nifer o'n haelodau bwyd cymunedol gau oherwydd natur eu gwasanaeth. Ar hyn o bryd, does yna ddim sicrwydd pryd ac os gân nhw ail-agor. Bu i eraill addasu eu gwasanaeth dros nos, er enghraifft newid o fod yn wasanaeth prydau i wasanaeth parseli bwyd neu gludo bwyd. O ran niferoedd, bu i nifer yr aelodau bwyd cymunedol gynyddu drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, ym mis Mawrth bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd lle bu i 15 aelod ychwanegol ymaelodi gyda ni mewn cyfnod o fis. Mae hynny deirgwaith y cyfartaledd ar gyfer pob mis am weddill y flwyddyn. Bu i'r niferoedd barhau i gynyddu yn ystod cychwyn 2020-21 pan fu'r cloi mawr. Mae'n debyg y bydd nifer o'r mudiadau hynny bu inni gydweithio gyda nhw yn ystod y cloi mawr yn ymatal fel aelodau yn ystod y flwyddyn, oherwydd fe gawson nhw eu sefydlu yn sgil y pandemig neu bu iddyn nhw fynd y tu hwnt i'r galw er mwyn cynnig help llaw.

At hyn, bu inni gydweithio gyda Llywodraeth Cymru, FareShare Uk a FareShare Glannau Merswy er mwyn rhoi ymateb brys ar waith yng Ngogledd Cymru.

Bydd hefyd cynnydd mewn costau yn ystod 2020-21 yn sgil COVID-19. Bydd angen prynu mwy o nwyddau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a hylendid. Hefyd, er mwyn gofalu ein bod yn medru manteisio ar gyfraniadau bwyd drwy FareShare UK roedd yn rhaid inni dalu am fwy o ofod storio yn y warws a mwy o wagenni fforch codi. Bydd costau cerbydau a gwirfoddolwyr hefyd yn cynyddu er mwyn inni fedru bodloni'r galw cynyddol.

Mae'r galw am y gwasanaeth yn cynyddu'n gynt na'r disgwyl felly bydd angen inni ganfod mwy o fwyd hefyd. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda FareShare Uk i geisio bodloni'r gofyniad hwn. Rydym hefyd wedi ennill cyllid i gyflogi Cydlynnydd Canfod Bwyd yng Nghymru i hwyluso bwyd gyda Busnesau Bwyd a Diod Cymru.



www.fareshare.cymru
FareShareCymru ar Instagram,
Twitter, Facebook, a LinkedIn.

Caiff FareShare Cymru ei weithredu gan Food Redistribution Wales Ltd.
Rhif Cofrestru'r Elusen: 1141781 | Rhif Cwmni: 07198367